

Y Dysgwr

Mae yna 176 o blant yn fy ysgol leoliad, mae’r ysgol yn ysgol Gymunedol Gymraeg, ac mae presenoldeb yr ysgol yn 95.2% yn ystod y flwyddyn. Mae 52% o’r plant sydd yn fy ysgol leoliad yn dod o gartrefi Gymraeg. Mae 13.9% o’r plant sydd yn yr ysgol gydag anghenion ychwanegol, mae hyn yn golygu bod 24 plentyn i bob athro/athrawes. Mae’r rhai o’r dysgwyr yn rhan o’r cynghorau sydd o fewn yr ysgol, y cynghorau sydd gan yr ysgol yw cyngor ysgol, cyngor eco a chyngor Cymreictod, y dysgwyr sydd yn trefnu pryd mae’r cynghorau yn cwrdd. Cyngor Cymreictod yw’r cyngor sydd yn hybu defnydd o iaith Gymraeg a hefyd yn codi ymwybyddiaeth o draddodiadau a diwylliannau yng Nghymru, hefyd enillodd yr ysgol gwobr efydd y Siarter Iaith yn Dymor yr Haf 2018. Cyngor ysgol yw cyngor sydd yn cyfarfod pob pythefnos i drafod gwahanol ffyrdd o wella’r ysgol a hefyd yn trefnu gwahanol weithgareddau i’r dysgwyr er mwyn codi arian i’r ysgol, er enghraifft bingo neu gwis ar ôl ysgol i’r teulu a’r gymuned gyfan. Cyngor eco yw cyngor sydd yn cwrdd bob pythefnos yn ystod amser cinio i drafod y materion canlynol: ynni, lleihau gwastraff, dŵr, tir yr ysgol, sbwriel, cadw’n iach, dinasyddiaeth fyd eang a thrafnidiaeth.

Mae’r plant yr ysgol yn mynd am dro unwaith yr wythnos o amgylch y gymuned fel ei bod yn dysgu beth sydd yn bwysig a beth sydd yn rhan o’r gymuned. Dros y misoedd diwethaf mae’r plant wedi dysgu bod y siopau lleol yn y pentref yn bwysig oherwydd mae’n dod ag arian i’r gymuned, a hefyd bod y ganolfan hamdden yn bwysig oherwydd mae llawer o bobl yn dod yn bell i fynd i’r ganolfan oherwydd nid oes llawer o ganolfannau yn y Sir. Mae plant yn fy ysgol leoliad yn falch o gymryd rhan i godi arian ar gyfer elusennau, enghraifft o hyn yw codi arian ar gyfer ward plant yn Ysbyty Glangwili oherwydd roedd un o’r plant yr ysgol wedi gwario llawer o amser yn yr ysbyty. Yn ystod amser egwyl a chinio mae plant henach yr ysgol yn gofalu am y rhai ifancach, mae hyn yn dangos bod cymdeithas o fewn yr ysgol yn un agos iawn.

Yr Ysgol

Mae fy ysgol leoliad yn ysgol gymunedol ac mae’n rhan bwysig o’r gymuned. Mae 7.5% o’r plant yn yr ysgol yn cael prydau ysgol am ddim. Mae gan yr ysgol gwefan ar lein sydd yn cynnwys y polisiau a gwybodaeth i’r rhieni a’r gymuned o beth sydd yn digwydd yn yr ysgol. Ar wefan yr ysgol dywedodd y pennaeth

“Ymfalchiwn yn yr addysg gytbwys ac eang a ddarparwn, gan anelu at y cyflawniad uchaf posibl fel dysgwr annibynnol gydol oes. Rydym yn cydweithio’n agos fel tîm o staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion i ffurfio partneriaeth sy’n cyfrannu at sgiliau uchel a gwelliant ysgol. Cydweithiwn gyda’n gilydd fel cymuned a’r gymdeithas leol.”

Ar wefan yr ysgol mae ganddynt sawl polisi sef polisi amddiffyn, polisi anghenion gofal iechyd, polisi chwythu’r chwiban, polisi gwrth fwlian, polisi cwynion a pholisi ymddygiad a disgyblaeth. Mae’r polisiau ar gael i bawb i’w weld ar wefan yr ysgol neu gall pobl ofyn am gopi caled trwy swyddfa’r ysgol. Fe wnaeth Estyn rhoi ‘da’ ar gyfer pob adran yn yr ysgol.



Yr Gymuned


Mae cymuned fy ysgol leoliad yn wledig sydd yn golygu bod llawer iawn o’r plant yn teithio tua hanner awr i’r ysgol oherwydd does dim llawer o ysgolion Gymraeg yn yr ardal. Dywedodd Estyn bod rhieni, plant, staff ag llywodraethwyr yn cymryd rhan yn yr ymdeimlad cryf o gymuned sydd yn bodoli yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn cynnal cyfarfod Cymdeithas athrawon, rheini a ffrindiau yn aml ac maent yn estyn croeso i bawb i ddod i’r cyfarfodydd er mwyn cefnogi a rhoi syniadau ar gyfer codi arian i’r ysgol, yn ddiweddar fe wnaethant godi arian i’r ysgol drwy wneud noson ‘jin a joio’ yn y gymuned lle'r oedd pawb yn gallu mynychu wrth brynu tocyn am £10, ac roedd yr elw i gyd yn mynd i’r ysgol. Mae clybiau yn cael ei gynnal yn yr ysgol er enghraifft adran y gymuned ac y clwb ffermwyr ifanc yr ardal. Mae hyn yn syniad gwych oherwydd mae plant o’r ysgol yn cael cyfle i fynychu er mwyn gwneud ffrindiau newydd. Mae’r gymuned yn cael gwahoddiad i ddod mewn i’r ysgol i wneud amryw o weithgareddau gyda phlant yn ystod clybiau ysgol sydd ar ôl amser ysgol. Mae ganddynt glwb crefft a chlwb canu a dawnsio lle mae aelodau o’r gymuned yn cael cyfle i ddod mewn i ddysgu’r plant yr holl sgiliau newydd hyn. Mae’r plant yn cael llyfrau i fynd adref er mwyn darllen gyda’i theuluoedd er mwyn hybu ei sgiliau llefaredd.

Damcaniaethwyr

Mae theori Jacques Rousseau yn dweud bod plant yn cael ei eni’n ddiniwed ac os ydynt yn tyfu i fod yn ddinasyddion drwg mae hyn oherwydd beth maent wedi cael ei ddysgu, neu hyd yn oed ddim wedi dysgu, o ganlyniad i rhianta ac effaith gymdeithasol. Ni ddylid athrawon orfodi plant i ddysgu beth sydd yn wael a beth sydd yn dda, mae’n well cywiro beth maent yn gwneud yn anghywir ac esbonio’r rheswm. Dylai plant cael datblygiad rhydd, sydd yn dilyn ei anghenion ac ar rythm ei hunain. Enghraifft o hyn yw, dylai plant ddysgu ysgrifennu a darllen dim ond pan maen nhw eisïau. Dyw rhoi cosb gorfforol i blant ddim yn berthnasol iddynt oherwydd ni fyddant yn dysgu i fod yn garedig.

Mae theori Tina Bruce yn credu bod chwarae yn broses weithredol yn lle rhywbeth sydd yn estyn at gôl neu yn creu gwrthrych, dyw darparu tegau ddim yn berthnasol oherwydd mae plant yn gallu gwneud propiau ei hun drwy ddefnyddio pethau naturiol fel brigau neu gerrig. Yn ôl Bruce, dylai oedolion cefnogi a hyrwyddo chwarae ond dim rheoli’r chwarae. Fe ddylai plant fod yn rheoli’r ffyrdd chwarae sydd yn llifo’n rhydd, trwy ddim dilyn rheolau a chydlynu agendâu chwarae amrywiol a phawb sy’n gysylltiedig. Mae chwarae dychmygus yn codi galluoedd gwybyddol i lefel meddwl uwch, fwy haniaethol, gan adael iddynt ddychmygu sut mae eraill yn teimlo ac iddynt roi cynnig ar wahanol agweddau ar eu personoliaethau eu hunain, fel bod yn dda, yn ddrwg neu'n hunanol. Mae bod yn ymgolli yn chwarae yn helpu plant i ddefnyddio profiadau o’r gorffennol i ddatrys problemau a gwneud arbrofion. Yn ychwanegol, mae’r crynodiad dwfn mae plant yn cael pan maent yn cael y cyfle i fod yn ymgolli yn y chwarae fod yn rhagfynegydd llwyddiant academiaidd diweddarach.

Mae Maria Montessori yn credu bod plant angen cael ei barchu yn ffordd ei hunain ac am bwy ydynt. Mae hyn yn golygu dylid rhoi gyfle iddynt ddysgu mewn ffordd briodol o ran ei datblygiad, ac yn rhoi cyfle iddynt adeiladu hyder yn gwneud hynny. Fe wnaeth Maria Montessori llawer o ymchwil ar blant ac fe wnaeth hyn sbarduno sawl mewnwelediad ar y ffordd mae plant yn dysgu. Mewn amser, fe wnaeth hyn arwain iddi ddod i ganlyniad dylid plant cael ei rhoi ganol yr addysg.



Dyma lun o theori Urie Bronfenbrenner:

Llyfryddiaeth

‘Adroddiad Ysgol Y Frenni’. (2018). Estyn, Hydref 2018. Ar gael yma: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/ysgol%20y%20frenni%20en.pdf> (darllenwyd 30ain o Ionawr 2020)

‘Bronfenbrenner’s theory’ (Llun) ar gael yma: <https://www.bbc.com/images/search?viewed=1472&cid=20200714&id=1>

‘Emile ,The perfect child- Rousseau theory on parenting and childhood Education.’ (2016). Hubpages, Medi 27. Ar gael yma: <https://hubpages.com/education/Emile-the-perfect-child> (darllenwyd 3ydd o Chwefror 2020)

‘What is Tina Bruce’s theory on play?’. (2020). Reference, Ionawr 4ydd. Ar gael yma: <https://www.reference.com/world-view/tina-bruce-s-theory-play-505755d8a4722f4b> (darllenwyd 6ed o Chwefror 2020)

‘Maria Montessori: a child-centred approach to education’. (2020) Our Kids.net, Chwefror 7fed. Ar gael yma: <https://www.ourkids.net/school/montessori-history> (darllenwyd 7fed o Chwefror 2020)

‘Ysgol Y Frenni’. Gwefan yr ysgol. Ar gael yma: <https://ysgol-frenni.i2bloggy.com/>